



Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Llawlyfr Ymsefydlu: ANG, MS a GA



Cynnwys:

Dogfennau canllaw

Ble gall sefydlu ddigwydd?

Trosolwg o Rolau a Chyfrifoldebau

Y Broses Sefydlu: Creu llwybr i'r ANG

Felly beth sy'n rhaid i mi wneud?

CGA

Llinellau Amser

Profiadau Dysgu Proffesiynol

Hyfforddi a Mentora

Targedau ac adroddiadau

Cwestiynau Cyffredin

Achos Pryder

Dysgu proffesiynol

Manylion Cyswllt



Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Dogfennau canllaw





Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru

(diwygiwyd Gorffennaf 2017)



Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: rhif 012/2017
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2017
Yn disodli cylchlythyr: rhif 002/2016

<https://hwb.gov.wales/api/storage/9b361366-fec4-4ceb-9a9f-79144aa14518/ymsefydlu-ar-gyfer-athrawon-newydd-gymhwyso-yng-nghymru.pdf>

Lleoliadau sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso: canllawiau

<https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/sefydlu/lleoliad-sefydlu-1-medi-2021-i-31-rhagfyr-2021/lleoliadau-sefydlu-ar-gyfer-athrawon-newydd-gymhwyso-canllawiau/>

Os nad yw'r cysylltiadau uchod yn gweithio copi'wch y cyfeiriad ai' osod yn y blwch cyfeiriad ar ben eich chwilotwr.

Fideo gan y
Gweinidog Addysg
Jeremy Miles
Statws athro
cymhwysiedig

[https://youtu.be/q
TbMx3o6WXo](https://youtu.be/qTbMx3o6WXo)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Ble gall sefydlu ddigwydd?



Gall Sefydlu ddigwydd mewn :	Ni all Sefydlu ddigwydd mewn:
Ysgolion a gynhelir yng Nghymru	Unedau cyfeirio disgyblion
Ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru	Ysgolion mewn mesurau arbennig, fel y bernir gan Estyn.
Ysgolion annibynnol yng Nghymru ble: - Mae'r cwricwlwm i unrhyw ddysgwr cynradd yn bodloni gofynion y CC - Mae'r cwricwlwm i ddysgwyr CA3 neu 4 yn cynnwys yr holl bynciau craidd a sylfaen - Cyrhaeddwyd cytundeb cyn dechrau'r cyfnod sefydlu rhwng yr ysgol a'r ALI sydd yn gweithredu fel y CP	Ysgolion meithrin annibynnol (oni bai eu bod nhw'n ysgolion annibynnol sy'n bodloni'r Meini Prawf a nodir yn y Rheoliadau) a lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill (oni bai eu bod nhw'n ysgolion meithrin a gynhelir)
Sefydliadau Addysg Bellach (FE) ble gall y sefydliad roi swydd briodol i ANG yn eu galluogi i gwblhau eu cyfnod sefydlu	Ysgolion annibynnol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf a ddisgrifir yn y Rheoliadau
	ysgolion cymunedol neu ysgolion arbennig sefydledig mewn ysbytai



Regional School Improvement Consortia Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Trosolwg o Rolau a Chyfrifoldebau



ANG

- Cofrestrwch gydag CGA yn y categori 'athro ysgol' a rhoi gwybod i'r Pennaeth/ asiantaeth Gyflenwi eich bod yn ANG
- Cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu proffesiynol eich hun, cysylltu â'r MS / GA i gael cefnogaeth
- Cadwch y Proffil yn gyfoes â phrofiadau dysgu proffesiynol - wedi'u mapio yn erbyn POB safon broffesiynol - MYFYRDOD rheolaidd
- Sicrhewch fod pob sesiwn wedi'i chofnodi
- Rhewch wybod i'r CGA os ydych chi'n symud ysgolion

Pennaeth ag Ysgol

- Sicrhewch fod gan yr ANG gefnogaeth o ddydd i ddydd
- Sicrhewch fod yr ANG yn cael 10% o amser digyswllt ar gyfer dysgu proffesiynol, yn ogystal â darpariaeth CPA o 10%
- Llofnodi ffurflen hysbysu Sefydlu a ffurflen hawlio cyllid i gadarnhau bod yr ANG wedi derbyn hawl i weithgareddau sefydlu
- Dyrannu MS i'r ANG, hysbysu CGA os yw'r ANG cyflenwi tymor byr yn sicrhau gwaith tymor hir mewn ysgol

Mentor Sefydlu

- Darparu cefnogaeth dyddiol i'r ANG
- Cynnal sgysiau arddull hyfforddi rheolaidd i fyfyrion ar ymarfer proffesiynol
- Cofnodi cyfarfodydd a chefnogaeth a ddarperir ar y proffil PLP gan ddefnyddio'r botwm adborth
- Cymeradwyo PDP neu argymell addasiadau gan ddefnyddio'r botwm adborth
- Cynnal arsylwadau gwersi (*lleiafswm o 1*)
- Cwblhau yr holl adrannau proffil PDP (gosod targedau, cwblhau adolygiadau ac argymhellion terfynol mewn trafodaeth â'r GA)

GA

- Gwirio'r trefniadau sefydlu ar ran y Consortiwm a'r CP (Corff Priodol)
- Cynnal arsylwadau gwersi (*lleiafswm o 1*)
- Cefnogi a chysylltu ag MS (*a darparu cefnogaeth ychwanegol i ANG ar gyflenwi tymor byr*)
- Cwblhau yr holl adrannau proffil PDP (adolygiadau a'r argymhelliad terfynol mewn trafodaeth â'r MS)

Consortia a'r Corff Priodol

- Sicrhewch fod y cyfnod sefydlu yn cwrdd â'r gofynion statudol
- Asesu tystiolaeth yr ANG i wneud y penderfyniad terfynol ar ganlyniad Sefydlu
- Cynnal cymedroli cadarn
- Cyflafareddu mewn achosion o bryder

Asiantaeth Cyflenwi

- Cefnogi ANG - gwiriadau cyn cyflogaeth a diogelu.
- Rhoi cefnogaeth ac arweiniad ar gyfleoedd dysgu proffesiynol
- Argymhell bod ANG yn diweddarau eu proffil Sefydlu yn barhaus.

Cyngor Gweithlu Addysg

- Darparu mynediad i'r Proffil Sefydlu (PLP)
- Darparu cefnogaeth dechnegol (Atodiad A - Sefydlu ar gyfer ANG yng Nghymru)
- Darparu tystysgrifau Sefydlu

Llywodraeth Cymru

- Gosod y rheoliadau
- Gosod polisi
- Gosod blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol trwy'r safonau
- Mae deddfwriaeth, polisi a blaenoriaethau yn cael eu datblygu gan LIC mewn cydweithrediad â'r partneriaid

Hawl yr ANG

- 10% o amser digyswllt yn ychwanegol at 10% CPA
- Mynediad at Fentor Sefydlu (MS)*
- Gwirwyr Allanol yn cael ei ddyrannu(GA)*
- Amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol
- Cefnogaeth briodol o ddydd i ddydd

* Ar gyfer ANG cyflenwi tymor byr, mi fydd y GA yn ymgymryd â rôl y MS a'r GA




Regional School Improvement Consortia Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Y Broses Sefydlu: Llwybr datblygiad




Llwybr a chyfeiriad i'r ANG




MS (a GA yn gweithio gydag ANG cyflenwi byr dymor)

Llwybr Cyfeiriad



Llwybr y Gwiriwr Allanol





Regional School Improvement Consortia Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Felly beth sy'n rhaid i mi wneud?



Cyn y swydd addysgu gyntaf, rhaid i'r ANG




Ar ôl dechrau'r rôl addysgu gyntaf, mae'n rhaid i'r ANG



Trwy gydol y cyfnod sefydlu, rhaid i'r ANG :




Cyn i'r ANG gychwyn y cyfnod sefydlu, rhaid i'r MS (neu'r GA) :



DS: Unwaith y bydd ANG wedi cofrestru a sefydlu PLP, bydd yr MS yn cysylltu a'r CGA i gael mynediad i'r proffil ANG

Drwy gydol y cyfnod sefydlu, rhaid i'r MS:




Cyn ymgymryd â'r rôl, rhaid i'r GA:

**Sicrhau eu bod wedi
ymgysylltu â dysgu
proffesiynol priodol
yn flynyddol i
gyflawni'r rôl yn
effeithiol**

**Sicrhau eu bod yn
deall rôl y safonau
proffesiynol at
ddibenion sefydlu
ANG**

Trwy gydol y cyfnod sefydlu, rhaid i'r GA:






Regional School Improvement Consortia Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru


CGA



Cliciwch ar y ddolen isod i gofrestru fel athro/athrawes gyda'r CGA. Yn dilyn hyn fe allwch osod a rheoli eich proffil sefydlu



FFURFLENNI



<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/sefydlu/ffurflenni-sefydlu.html>

PDP yr ANG (Pasbort Dysgu Proffesiynol):

- Cam 1 – Proffil Dechrau Gyrfa (PDG), Hunan-asesiad, Y Fframwaith Gymraeg
- Cam 2 – Blaenoriaethau Datblygu ac adolygiadau
- Safonau Proffesiynol – PDPau
- Adolygiad tefynol ac argymhellion
- Cofnod presenoldeb (Cyflenwi byrdymor yn unig)
- Cofnod o Ddysgu Proffesiynol

Bar adborth – cofnodi cyfarfodydd, cyfathrebu rhwng ANG, MS, GA ac uwchlwytho dogfennau adborth arsylwi gwersi

Gallwch gyrchu canllawiau cymorth ar wefan CGA:

<https://v3.pebblepad.co.uk/spa/#/public/kwhG4Zmrc8y6rxMsd9p78gmW8y?historyId=jtlvCa3jjx&pageId=kwhG4Zmrc8y6rswfrkWgd3hwrW>

Newydd ar gyfer 2021-22: Y Fframwaith Gymraeg ar y PDP

Save

Preview

Contents

Intro and Guidance

Part 1: Course details

Part 2: Welsh competence

Part 3: Reflection

Part 4: Sign off

Bridging Guidance



Competence in Welsh (if applicable)

Please provide a brief assessment covering both written and verbal skills, including experience of first and second language teaching.

Welsh Language Skills Framework

Use the tool below to upload the Welsh Language Skills Framework document

 This has not been evidenced



Regional School Improvement Consortia Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Llinellau Amser



Amserlen Sefydlu yr ANG

(I'r mwyafrif – sesiwn 1 i 70)

- Mae'n hanfodol bod ANG yn cofrestru gyda'r CGA
- Mewngofnodi a chyfarwyddo â'r Proffil Sefydlu (CGA)
- Cwblhau Cam 1 – Llwytho Proffil Dechrau Gyrfa a chwblhau Hunan Asesiad Sefydlu.
- Bydd Mentor Sefydlu (MS) yn trafod Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth efo'r ANG
- Gosodir blaenoriaethau datblygu (Cam 2).
- Trafod amserlen monitro, arsylwi ac adolygu.
- Dyrannu GA.
- ANG i ddechrau myfyrio ar y Safonau drwy'r PDP..

(I'r mwyafrif – sesiwn 71 i 110)

- Deialog gyda'r MS. ANG i fyfyrion ar y Safonau drwy'r PDP.
- Codir Achos Pryder os nad oes dystiolaeth bod PDP yn cael eu cofnodi neu bryderon am gynnydd.
- Ymweliad rhagarweiniol y GA.
- Trefnu amserlen arsylwi y GA ac Adolygiadau Sicrhau Ansawdd ar gyfer y flwyddyn academaidd.
- Cyfarfod â'r MS ar gyfer yr Adolygiad Adolygu Cyntaf (cam 2). MS yn gosod Blaenoriaethau Datblygu newydd.
- ANG i gwblhau ymatebion i'r adroddiadau cynnydd (cam 2).
- Adolygiad cyntaf y GA (cam 2).

(I'r mwyafrif – sesiwn 110 i 380)

- Deialog barhaus efo'r MS a myfyrio yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu
- Cofnodi Profiadau Dysgu Proffesiynol.
- Gweithio tuag at Flaenoriaethau Datblygu.
- MS yn monitro ac arsylwi/GA yn arsylwi gwers/Adolygiad Sicrhau Ansawdd.
- Codir Achos Pryder os nad oes digon o dystiolaeth o PDP neu bryderon am gynnydd.
- Cyfarfod â'r MS am Ail Adolygiad Cynnydd (ANG i gwblhau ymateb i adroddiadau cynnydd (Cam 2).
- Ail Adolygiad GA (Cam 2).
- Deialog barhaus gyda'r MS ac adfyfyrion gan ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu
- Cofnodi Profiadau.
- Gweithio tuag at gyflawni Blaenoriaethau Datblygu.

(hyd at 380 i gwblhau'r proffil)

- ANG yn cyfarfod â'r MS ar gyfer adolygiad terfynol.
- ANG yn cyflwyno'r proffil.
- MS a GA yn cwblhau Adolygiad Terfynol a'r Argymhelliad.

Arsylwad Gwers gan Mentor Sefydlu / Gwiriwr Allanol

Enw ANG		Rhif RhCA		Pwnc:	
Enw GA		Dyddiad Ymweliad		Nifer yn y dosbarth:	
Enw MS (os yn bresennol)				Blwyddyn:	
	Sylwadau				
Cynllunio					
Cryfderau Addysgu Allweddol:					
Effaith ar y dysgu a'r dysgwyr					
Targedau cytunedig ar gyfer datblygiad pellach					



Regional School Improvement Consortia Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru


Profiadau Dysgu Proffesiynol



ANG a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth

- Mae'n ofynnol i ANG ddangos cynnydd digonol yn erbyn yr holl **ddisgrifyddion sefydlu**.
- Edrychwch ar y safonau a'r disgrifyddion sydd ar gael yma:
<https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/>

- 5 Safon
- 32 Disgrifwyr sefydlu



- Bydd pob ANG yn cofnodi eu PDP ar eu Proffil Sefydlu (rhwng **12-20** i gyd)
- Bydd pob PDP yn cael ei fapio i 3-5 disgrifydd
- Dylid cynnal **sgyrsiau proffesiynol** yn rheolaidd rhwng yr ANG a'r MS / GA er mwyn nodi profiadau i fyfyrion arnynt a'u dogfennu. Fe fydd hyn yn dystiolaeth fod yr ANG wedi ymwneud â'r disgrifyddion Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu a Dysgu.

Cymorth wrth Gofnodi Profiadau – i ANG

Disgwylir ym mhob profiad	Disgwylir ar draws ystod o brofiadau
Beth wnaethoch a pham?	Mae angen cynnwys profiadau cadarnhaol a negyddol - mae'r ddau yr un mor werthfawr o ran datblygiad proffesiynol. Rydym yn dysgu o'n camgymeriadau.
Beth rydych wedi ei ddysgu? – nodwch yr effaith - ar yr athro, dysgwyr neu'r ddau	Cynnydd y dysgwr - pa gynnydd maent wedi dangos?
Cyfeirio at y Safonau Proffesiynol - sicrhewch fod y safonau'n berthnasol i'r profiad	Cysylltwch y profiad gyda dogfen bwrpasol - er mwyn arddangos elfen o'r profiad
Beth nesaf – Byddwch yn Fyfyriol	Cyswllt â'r ysgol gyfan / cymuned - sut mae'r profiad wedi cael effaith ehangach?
	Nodwch faes i'w ddatblygu - byddwch yn fanwl a gwerthuswch y camau gweithredu
	Cofiwch gynnwys ymchwil - gellir cynnwys arsylwadau, trafodaethau a chysylltiadau i ddogfennau allanol
	Cam nesaf y dysgwyr -sut mae symud y dysgwyr ymlaen?

Syniadau ar gyfer PDP

- Enghreifftiau llwyddiannus o addysgu
- Ymweliad addysgol wedi'i drefnu'n dda
- Arddangosiad neu weithgaredd sy'n ysgogi dysgu pellach
- Gwneud cyfraniad defnyddiol i gyfarfod staff
- Cymryd rhan mewn grŵp datblygu cwricwlwm estynedig
- Delio'n sensitif gyda mater efo rhiant/gofalwr
- Datblygu agwedd newydd ar gyfer addysgu e.e. cynllun gwaith
- Awgrymu newid ym mholisi neu systemau ysgol
- Creu cysylltiadau â'r gymuned
- Mynd i'r afael â gwaith ymchwil
- Y defnydd ac effaith o ddysgu proffesiynol yn y dosbarth.
- Cyfarfod noson rhieni

Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu PDP



- *Sicrhewch fod gan y PDP deitl sydd wedi'i rifo*
- *Gall yr elfen **yr hyn a wnaed a pham** fod yn gryno*
- *Mae angen i'r **hyn a ddysgwyd** fod yn fyfyrriol a chanolbwyntio ar effaith*
- *Fe ddylai **Beth nesaf** fod yn benodol*
- *Mapiwch 3-5 disgrifydd safonol yn unig i bob PDP*

MAE NODI EFFAITH A MYFYRDOD YN ALLWEDDOL!

Graddfa symudol wrth fapio disgrifwyr safonol y PDP

Offeryn hunanasesu ar gyfer yr ANG

Dylai'r ANG a'r MS drafod pob llithrydd ar gyfer pob disgrifydd.

Mae angen i'r GA fonitro'r llithryddion



Cymeradwyo PDP

- *Rhaid i bob PDP gael ei gymeradwyo gan y MS*
- *Gweler y canllaw cymorth ar wefan CGA:*
<https://v3.pebblepad.co.uk/spa/#/public/kwhG4Zmrc8y6rxMsd9p78gmW8y?historyId=hZZV0M7gtx&pageId=kwhG4Zmrc8y6fgpznrMw49d8bh>



Regional School Improvement Consortia Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol


Gogledd Cymru

Hyfforddi a Mentora




**Ystyriwch y gweithgareddau
proffesiynol yma.**

**Sut maen nhw'n debyg a sut
mae nhw'n wahanol?**



Sgwrs broffesiynol lle mae'r cwnselydd yn defnyddio sgiliau penodol er mwyn galluogi rhywun i nodi materion personol neu emosiynol y maen nhw am fynd i'r afael â nhw trwy gyfres o gamau cytunedig.



Cwmsela

Amrywiaeth o brofiadau a gynlluniwyd gan ymarferydd hyfforddedig. Mae yna ddilyniant i'r profiadau hyn sydd yn hwyluso'r dysgu a sicrhau cynnydd grŵp o ddysgwyr yn unol â'u hanghenion unigol.



Addysgu

Hyfforddi

Deialog broffesiynol fyfyrion lle mae'r hyfforddwr yn defnyddio ei sgiliau er mwyn galluogi'r hyfforddai i nodi ei nodau a'i gamau gweithredu eu hunain er mwyn mireinio eu harfer eu hunain.



Mentora

Gweithgareddau proffesiynol myfyrion lle mae'r mentor yn defnyddio ei arbenigedd a'i brofiad i arwain yr un sydd yn cael ei fentora a chreu ystod o gyfleoedd iddynt wella eu harfer.



Mentoring and Coaching Interactive Continuum

Continwm mentora a hyfforddi

Mentora: gall, pan yn briodol, gynnwys cynnig arweiniad a rhoi cyngor i helpu i ddatrys problemau



Rhoi cyngor
Cyfarwyddyd
CYFARWYDDEB (DIRECTIVE).

Rhannu adborth

Gwneud awgrymiadau

Gofyn cwestiynau sydd yn codi ymwybyddiaeth.

Aralleirio

Myfyrio

Gwrando er mwyn deall

DI- GYFARWYDDEB



Hyfforddi: cynorthwyo person i ddod o hyd i'w atebion ei hun i broblemau

Deg Egwyddor Craidd Mentora a Hyfforddi (Llywodraeth Cymru, 2015).

Mae hyfforddi a mentora effeithiol yn cynnwys:

- **sgwrs sy'n dysgu** sgwrs broffesiynol strwythuredig, wedi'i gwreiddio mewn tystiolaeth o ymarfer y dysgwr proffesiynol, sy'n mynegi credoau ac arferion sy'n bodoli i alluogi i fyfrio arnynt;
- **perthynas ystyriol** datblygu ymddiriedolaeth, rhoi sylw mewn modd parchus a sensitif i'r emosiynau pwerus sydd ynghlwm â dysgu proffesiynol dwfn;
- **cytundeb dysgu** sefydlu hyder ynghylch ffiniau'r berthynas drwy gytuno ar reolau cyffredin a'u dilyn sy'n mynd i'r afael ag anghydbwysedd o ran pwerau ac atebolrwydd;
- **cyfuno cymorth gan gyd-ddysgwyr proffesiynol ac arbenigwyr** cydweithio â chydweithwyr i gynnal ymrwymiad i ddysgu a chysylltu mewnbyn arbenigol ag arfer bob dydd; gofyn am arbenigedd arbenigol i ehangu sgiliau a gwybodaeth ac i fodelu arfer da;
- **hunan gyfeiriad sy'n tyfu** proses esblygol lle mae'r dysgwr yn cymryd rheolaeth gynyddol dros ei ddatblygiad proffesiynol wrth i sgiliau, gwybodaeth a hunan ymwybyddiaeth gynyddu;
- **gosod nodau heriol a phersonol** nodi nodau sydd wedi'u gwreiddio mewn dyheadau i ddisgyblion sy'n adeiladu ar yr hyn maent yn ei wybod ac a allant wneud eisoes tra hefyd yn rhoi sylw i flaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau personol;
- **deall pam bod dulliau gwahanol yn gweithio** datblygu dealltwriaeth o'r rhesymeg dros ddulliau newydd fel y gellir datblygu ymarfer a theori ochr yn ochr a'u haddasu ar gyfer gwahanol gyd-destunau;
- **cdnabod y buddion i fentoriaid a hyfforddwyr** cydnabod y ddysg broffesiynol y mae mentoriaid a hyfforddwyr yn ei chael o'r cyfle i fentora neu hyfforddi a'u defnyddio i fodelu dysg broffesiynol;
- **arbrofi ac arsylwi** creu amgylchedd dysgu sy'n cefnogi cymryd risg ac arloesedd ac yn annog dysgwyr proffesiynol i chwilio am dystiolaeth uniongyrchol o ymarfer a'u dadansoddi;
- **defnyddio adnoddau yn effeithiol** gwneud a defnyddio amser ac adnoddau eraill yn greadigol i amddiffyn a chynnal dysgu, gweithredu a myfrio yn ddyddiol.



Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Targedau ac adroddiadau



**MODEL
HYFFORDDIANT
OSCAR AR
GYFER GOSOD
TARGED**

CANLYNIAD (Eich cyrchfan)	- Beth yw eich deiliant hir dymor? - Beth fydd llwyddiant yn edrych fel? - Beth hoffech gyflawni o'r sesiwn heddiw? (Dyma lle rydych chi'n egluro'r deilliannau ar gyfer unrhyw sefyllfa benodol)
SEFYLLFA (Eich man cychwyn)	- Beth yw'r sefyllfa bresennol? - Beth sy'n digwydd mewn gwirionedd? (Dyma lle rydych chi'n cael eglurder ynghylch ble rydych chi ar hyn o bryd)
DEWISIADAU (a goblygiadau) (Pa lwybr?)	- Pa ddewisiadau sydd gennych chi? - Beth yw canlyniadau pob dewis? - Pa ddewisiadau sydd â'r canlyniadau gorau? (Dyma lle rydych chi'n cynyddu ymwybyddiaeth am ganlyniadau eich dewisiadau)
GWEITHREDOEDD (Eich cynllun manwl)	- Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd? - Beth wnewch chi nesaf? - Pryd fyddwch chi'n gwneud hyn, gyda phwy? - Ar raddfa o 1 i 10 pa mor barod ydych chi i gymryd y camau hyn? (Dyma lle rydych chi'n cymryd cyfrifoldeb am eich cynllun gweithredu personol)
ADOLYGIAD (Gwneud yn siŵr eich bod ar y trywydd iawn)	- Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i adolygu'ch cynnydd? - Pryd byddwn yn dod at ein gilydd i adolygu'r cynnydd? - A ydych wedi gweithredu'r camau? - A yw'r camau hyn wedi eich symud tuag at eich deilliannau? Os na, pam? (Dyma lle rydych chi'n gwirio'ch bod ar y trywydd iawn yn barhaus)

Esiampl : Targedau MS ag Adolygiad ar Cam 2

TARGED - PENODOL	CAMAU GWEITHREDU - CYRAEDDADWY A REALISTIG	TYSTIOLAETH SYDD YN CEFNOGI - MESURADWY	AMSERLEN -
Cynorthwyo i ddatblygu adnoddau ar gyfer thema drawsgwricwlaidd Gwyddoniaeth (Taith i'r blaned Mawrth) addysgu hyn mewn gwersi i ddosbarthiadau blwyddyn 7	- Gweithio gyda'r pennaeth adran a'r adran - - datblygu adnoddau (pwerbwynt) - Arsylwad gwers gan y MS	Ysgrifennu myfyrdod am addysgu trawsgwricwlaidd. Cysylltu asedau/dogfennau gan gynnwys adnoddau. Cofnod arsylwi yr MS.	Medi - hanner tymor Hydref i gynllunio. Tach - cyflwyno Rhag 11eg – PDP wedi'i ysgrifennu a'i gyflwyno i'r MS i'w arwyddo
Gwella'r defnydd o strategaethau asesu cymheiriaid a hunanasesu	- arsylwi cymheiriaid gyda chydweithiwr profiadol - strategaethau ymchwil Dylan Wiliam a Shirley Clarke - dysgu dysgwyr sut mae hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn effeithiol	Nodiadau ymchwil yn dilyn arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a darllen. PDP ar asesiad gyda gwaith dysgwr yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth.	Hyd – arsylwi gwers Tach - trafodaeth am waith dysgwyr gydag MS Rhag-ysgrifennu PDP a'i gyflwyno i'r MS i'w lofnodi
Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd yn yr adnoddau addysgu ar gyfer cynllun gwaith Bioleg Blwyddyn 7 ac ar gyfer cyfarch a chyfarwyddiadau sylfaenol ar gyfer rheoli ystafell ddosbarth.	- defnyddio adnoddau Cymraeg yng nghynllun gwaith Bioleg Blwyddyn 7 - canolbwyntio ar eiriau allweddol, tudalen geirfa a rhai cyfarwyddiadau sylfaenol - Defnyddio Cymraeg bob dydd mewn gwersi ar gyfer cyfarchion, gwaith bwrdd gwyn a chyfarwyddiadau - arsylwi heb gan MS / GA	Ysgrifennu gwerthusiad am addysgu gan ddefnyddio'r Gymraeg gan ddefnyddio tystiolaeth. Cofnod arsylwad y MS /GA	Hydref 22- adnoddau wedi'u creu Hydref - Tach - Cymraeg yn cael ei defnyddio mewn gwersi Rhag 1af - PDP wedi'i ysgrifennu yn canolbwyntio ar eich camau nesaf eich hun i wella'r defnydd o Gymraeg

Adolygiad Cyntaf yr MS: Mae wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei thargedau. Yn ychwanegol i hyn, mae wedi setlo'n dda yn yr ysgol ac mae'n parhau i greu argraff, fel y dengys y ffaiuth fod ei chytundeb yn cael ei newid i gytunbed parhaol cyn diwedd y tymor cyntaf.

Mae wedi datblygu nifer o adnoddau defnyddiol ac wedi eu defnyddio yn ystod ei gwersi y tymor hwn. Mae wedi datblygu fframwaith ar gyfer addysgu dysgwyr sut i hunan-asesu ac asesu cyfoedion sydd wedi'i rannu â'r adran gyfan ac mae wedi dangos bod datblygiad y Gymraeg yn cael ei weithredu'n rhagorol yn ei gwersi. Arsylwais ar wers y tymor hwn a theimlaf ei bod yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'n gwrandao'n ofalus ar adborth ac yn gweithredu'r holl gyngor a roddir. Mae wedi ysgrifennu nifer o PDP myfyriol sydd wedi'u cymeradwyo.

TARGED - PENODOL	CAMAU GWEITHREDU - CYRAEDDADWY A REALISTIG	TYSTIOLAETH SYDD YN CEFNOGI - MESURADWY	AMSERLEN -
Ymgorffori strategaethau ‘dechrau gwersi’ mwy effeithiol yn ystod gwersi llythrennedd	-Ymchwilio er mwyn darganfod strategaethau ‘dechrau gwersi’ sydd yn sicrhau ymgysylltiad y dysgwyr. -Cynllunio y strategaethau hyn fel rhan o bob gwers llythrennedd. -Arsylwad gwers gan y mentor sefydlu.	-Arsylwad gwers -PDP yn nodi canfyddiadau a rhoi syniadau ar waith	Ymchwilio a chynllunio – erbyn 20 Hydref Cyflwyno gwersi llythrennedd – erbyn 19eg Tachwedd a chyflwyno PDP i'w llofnodi erbyn 6ed o Ragfyr
Gwella deilliannau dysgwyr wrth iddynt gymryd rhan mewn gwaith grŵp	-Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu fy nealltwriaeth n o rôl gwaith grŵp yn y broses dysgu -Arsylwi ar eraill yn defnyddio gwaith grŵp ar gyfer dysgu -Creu strategaethau ar gyfer sefydlu grwpiau gan ddefnyddio offeryn megis dadansoddiad Belkin ar gyfer pob dosbarth - Cofnodi enghreifftiau o wahanol weithgareddau grŵp sydd yn cael eu cynnal yn y gwersi	--Arsylwi ar eraill yn defnyddio gwaith grŵp -PDP – dangos yr hyn a ddysgais a fydd yn effeithio ar fy ymarfer proffesiynol. - Cynnwys cynllunio a’r adnoddau a grëwyd yn y PDP	Arsylwi grŵp – 11eg Hyd Cwblhau ymchwil erbyn canol mis Tachwedd Arbrofi gyda grwpiau Hyd – Tach PDP wedi ei ysgrifennu erbyn diwedd Tachwedd ar gyfer ei lofnodi gan y MS
Canolbwyntio ar sut y gall trefniadau eistedd effeithio ar bob dysgwr yn ystod amser Rhifedd	-Ystyried amrywiaeth o ddulliau y gellir trefnu ble mae disgyblion yn eistedd (rhyw, gallu, cyfeillgarwch ac ati) -Ystyried ffyrdd gwahanol o drefnu'r amgylchedd dysgu -Gweithio gyda chydweithwyr e.e. athro dosbarth blaenorol a cynorthwywyr er mwyn gwerthuso llwyddiant.	-Cynlluniau eistedd/ystafell ddosbarth wedi'u anodi (gellir eu defnyddio fel tystiolaeth) -nodiadau yn dilyn gwerthusiad - PDP – effaith camau gweithredu	Cynllun trefniant dosbarth terfynol erbyn canol mis Hydref Ysgrifennu PDP erbyn 7fed o Dachwedd gyda tystiolaeth wedi'u cyflwyno ar gyfer ei lofnodi gan y MS.
Adolygiad y MS: <u>Targed 1</u> - mae gweithgareddau arsylwi a monitro gwersi yn dangos bod wedi ymgorffori strategaethau gwahanol i ddechrau gwersi ac ennyn diddordeb dysgwyr. Mae archwiliad llyfrau diweddar yn dangos sut mae’r disgyblion wedi dechrau gwneud cysylltiadau rhwng y dechrau y wers a'r dysgu ei hun ac mae.....yn defnyddio hyn yn effeithiol drwy adborth i ddysgwyr er mwyn adeiladu ar lwyddiant ac amlygu meysydd i'w datblygu. Mae ei PDP yn fyfyrïol ac mae ganddi dystiolaeth priodol <u>Targed 2</u> – Mae’n amlwg bod ... wedi cymryd y cam cyntaf i ymchwilio i'r syniadaeth y tu ôl i waith grŵp ac mae'n defnyddio dulliau effeithiol wrth ddefnyddio gwaith grŵp fel strategaeth wirioneddol ar gyfer dysgu annibynnol. Mae ei harsylwad gwersi yn adlewyrchu lefelau cynyddol o ymreolaeth a hyder y dysgwyr <u>Targed 3</u> - Mae wedi ystyried amrywiaeth o bosibiliadau o ran rheoli'r amgylchedd dysgu drwy drefnu'r ystafell ddosbarth a lleoli disgyblion ac mae'n amlwg ei bod wedi defnyddio ei phrofiad o arsylwi ar eraill yn addysgu.			

Esiampl : Adolygiad Cynnydd ANG gan GA

Mae ??? wedi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'i dyletswyddau a chyfrifoldebau fel athrawes. Mae hi wedi profi'n gyson ei bod yn medru ar y sgiliau i weithredu ar ei gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol er lles dysgwyr gan gynnwys gallu canmoliadwy i gynnal addysgu safonol yn ystod y cyfnod clo.

Braf iawn yw darllen am ei chyfraniad at waith yr adran ac ysgol a'i hymrywmiad at ddysgu proffesiynol parhaus hefyd. Mae profiadau proffesiynol ?? yn gyfoethog ac mae'r ffurflen parhad dysgu ac addysgu yn cyfateb i'r profiadau proffesiynol gan dystiolaethu'r cynnydd mae hi wedi cyflawni yn ystod ei chyfnod sefydlu.

Mae gwerthusiad ?? yn bwrpasol ac yn nodi'r camau nesaf ar gyfer ei datblygiad parhaus. Gan gyfeirio at y Cyfnod Clo, cytunaf ei fod yn darged pwysig i ?? fanteisio ar bob cyfle i arsylwi ar eraill er mwyn parhau i ddatblygu, mireinio a myfyrio ar ei harfer.

Hoffwn ddiolch i ?? a'r MS am eu proffesiynoldeb trwy gydol y cyfnod sefydlu a dymunaf bob lwyddiant i ??? am ddyfodol disglair yn y byd addysg. Gobeithiaf am gyfle i gydweithio unwaith eto rywbryd yn y dyfodol.

Enghraifft o Sylwadau Terfynol: MS

Mae'r tymor olaf hwn yn yr ysgol wedi bod y un gwahanol iawn i'r arfer, ac eto mae wedi ymgymryd â'r sewfyllfa gyda proffesiynoldeb a brwdfrydedd. Derbyniodd y cyfrifoldeb am redeg grŵp blwyddyn (oherwydd bod partner y grŵp blwyddyn yn hunan ynysu am chwe wythnos), cynnal gwersi ar-lein, sicrhau lles disgyblion drwy e-byst a negeseuon fideo ar Seesaw a gweithiwo fel gweithiwr allweddol yn hwb yr ysgol. Mae ... wedi profi ei bod nid yn unig yn ymarferydd cymwys a gofalgar ond hefyd yn aelod ghgweithgar o'r tîm.

Anfonwyd nifer o negeseuon i'r ysgol yn ystod y cyfnod clo yma gan rieni yn canmol y ffordd y mae wedi bod yn cyfathrebu â'i ddosbarth. Mae hefyd wedi bod yn barod i helpu ymhellach gyda phlant gweithwyr allweddol, drwy ymgymryd â sifftiau ychwanegol i helpu i redeg yr Hwb, a hyn yn gwbl yn ddidrafferth. Mae ei wersi ar-lein wedi datblygu o'r cyfnod cychwynnol ble roeddem yn tybio mai cyfnod dros dro oedd hyn ac y byddai disgyblion yn ôl o fewn pedair wythnos. Bellach mae wedi cynllunio gwersi dysgu ar-lein cyflawn lle mae sgiliau newydd yn cael eu haddysgu drwy dechnegau dysgu cyfunol. Mae ... wedi bod yn arbennig o ymwybodol o les plant yn ystod y cyfnod hwn ac wedi bod yn sicrhau fod uwch dim rheoli yr ysgol yn ymwybodol o ddisgyblion y mae'n pryderu amdanynt neu nad yw wedi clywed ganddynt am gyfnod.

Yn ogystal â delioâ hyn i gyd, mae ... hefyd wedi cynhyrchu ei set gyntaf o adroddiadau ysgol sy'n drylwyr iawn ac yn profi pa mor dda y mae'n adnabod ei ddosbarth. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi'i llwyddo i sicrhau swydd iddo ar gyfer y flwyddyn nesaf, ohewrwydd ein hyder ynddo rydym wedi wi osod ym Mlwyddyn 6 lle bydd yn dysgu llawer iawn am ofynion diwedd cyfnod allweddol a phontio, a fydd o fudd mawr i'w ddatblygiad proffesiynol.

Rydych wedi gwneud fy swydd fel Mentor Sefydlu yn un hawdd a phleserus, ac mae wedi bod yn bleser eich gweld yn tyfu ac yn ymlacio yn eich swydd. Rydych wedi dod yn rhan o'r ysgol yn gyflym ac yn aelod gwerthfawr o'r tîm. **Llongyfarchiadau ar flwyddyn ANG wych!**

Esiampl o Adolygiad Terfynol: GA

- Mae gan xx gyfres o brofiadau gwerthfawr iawn a llawer o dystiolaeth sy'n dangos ei bod wedi llwyddo i weithredu ar yr hyn mae wedi dysgu.
- Braf iawn yw darllen am sut mae xxx wedi llwyddo i ddefnyddio'r ddarllen ehangach i gefnogi yr addysgu.
- Mae xxx wedi bod yn flaengar iawn wrth gymryd rhanyn weithredol mewn rhwydweithiau proffesiynol a chymunedau dysgu gan ddatblygu, rhannu ac arwain cynlluniau er lles yr ysgol; a'r proffesiwn ehangach.
- Mae xxx yn gwybod sut i gynnal dysgu ac addysgu effeithiol ac yn cefnogi dysgwr ar draws yr ystod gallu i gyrraedd eu llawn potensial.
- Mae xxx yn myfyrio ar ei chynnydd yn rheolaidd ac wedi datblygu arddull gref o werthuso effaith ei chynlluniau ac arferion proffesiynol.
- Mae targedau xxx ar gyfer gwella datblygu'n barhaus yn addas iawn. Hoffwn ddiolch i xxx am ei phroffeisynoldeb wrth gwblhau'r cyfnod sefydlu a dymuno'n dda iddi am ei dyfodol yn y byd addysg.
- Mae'r gefnogaeth a gynigwyd iddi gan y MS wedi bod yn hynod o effeithiol a chefnogol ac unwaith eto hoffem ddiolch i hithau hefyd. Hoffwn ddymuno'n dda iddi am ei dyfodol yn y byd addysg.

Enghreifftiau o Sylwadau Hunan-Fyfyrrio: ANG

- Bu amseroedd heriol, llawer o amseroedd cadarnhaol, a sefyllfaoedd na allai neb fod wedi'u rhagweld, ond mae hyn i gyd wedi cyfrannu'n fawr at fy natblygiad proffesiynol. Ym mis Medi, roeddwn i'n teimlo wedi fy llethu braidd a diffyg hyder mewn rhai sefyllfaoedd, ond bellach rwy'n teimlo'n hyderus iawn ac yn gyfforddus fel athro. Rwyf wedi manteisio ar lawer o gyfleoedd i ddatblygu fy safonau proffesiynol fel arwain teithiau, ymuno â thîm addysgeg a mynychu cyfarfodydd rheolaidd, cefnogi'r arweinydd-Eco gyda chlwb Eco a gwasanaethau, a hyfforddiant i arwain Parth Gweithgaredd Teulu*
- Rwyf wedi ymateb yn weithredol i gyngor, megis ar ôl fy arsylwad cyntaf, fe wnes i greu meini prawf llwyddiant gweladwy i'w defnyddio pob gwers, cardiau her annibynnol gyda 3 lefel wahanol, ac annog mwy o asesiad cymheiriaid. Mynychais y cyrsiau Anelu ANG a oedd yn hynod werthfawr a gwyh ar gyfer trafodaeth ac i gael cyngor. Fe wnes i nid yn unig rannu fy syniadau fy hun ond bachu ar lawer o syniadau ac adnoddau newydd y gwnes i eu rhannu gyda fy nghydweithwyr.*
- Rwyf wedi cydnabod rhai anghenion dysgu ychwanegol posibl ar gyfer rhai plant yn fy nosbarth, ac wedi cael yr hyder i fynd i'r afael â'r rhain gyda rhieni a'n Cydlynnydd ADY. Rwyf wedi trefnu cyfarfodydd gyda rhieni a'n cydlynnydd ADY, ac wedi sicrhau fy mod wedi gwneud popeth posibl i gefnogi'r plant yma a'u teuluoedd. Hefyd, rydw i wir wedi canolbwyntio yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf ar herio fy mhlant MATH, a hefyd eu defnyddio i helpu eu cyfoedion.*
- Rwy'n falch iawn o'r gwahaniaeth rydw i wedi'i wneud i'm myfyrwyr, ac rwy'n gobeithio y bydd hyn yn parhau trwy gydol eu haddysg. Rwy'n gyffrous i weld beth fydd yn digwydd yng nghanam nesaf fy ngyrfa, a byddaf yn gwneud ymdrech gyson i ddal ati gyda fy natblygiad proffesiynol parhaus.*

Esiamplau o Sylwadau Terfynol: ANG

Pedagogiaeth	<i>“Wrth ystyried y ffaith fod y Cwricwlwm i Gymru am ddatblygu'n fwy fyth dros y flynyddoedd nesaf, mae angen i mi sicrhau fy mod yn dod yn gyfarwydd gyda'r 4 diben yn fwy fyth oherwydd dyma fydd craidd y cwricwlwm newydd yma.</i> <i>Gall hyn fod trwy plethu'r pedwar diben i mewn i fy ngwersi, er mwyn gweld sut byddai'n gallu cael ei ddefnyddio. Hefyd, wrth ystyried asesu, mae angen i mi sicrhau fy mod yn darparu digon o amser ar gyfer cwblhau sesiynau GEP, er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn ymwybodol o sut i wella, ac yna'n defnyddio'r wybodaeth yma i'w helpu yn y wersi i ddilyn”.</i>
Arweinyddiaeth	<i>“Wrth ystyried cefnogi rolau arweinyddol ffurfiol, mae angen i mi ddatblygu fwy fel tiwtor dosbarth er mwyn sicrhau fy mod yn cefnogi Lles disgyblion o fewn yr ysgol. Byddaf yn sicrhau fy mod yn onitro agwedd y disgyblion tuag at e.e. gweithgareddau Lles Llun, sy'n ffocysu ar les meddyliol y disgyblion, a byddaf yn cynnig cael trafodaethau gyda disgyblion os oes angen.</i> <i>Byddaf hefyd yn ceisio datblygu fy rôl o fewn y maes dyniaethau trwy cynorthwyo'r adran gyda'i ynnlluniau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.”</i>

Esiamplau o Sylwadau Terfynol: ANG (2)

Pedagogiaeth	<i>“Mae angen i mi barhau gyda dysgu proffesiynol oherwydd mi fydd hyn yn sicrhau fy mod yn gwella fel athrawes dyniaethau. I wneud hyn, byddaf yn parhau i ddarllen yn ehangach am dechnegau dysgu ac addysgu, yn enwedig technegau reolaeth dosbarth, oherwydd credaf fod angen i mi barhau i wella hyn wrth ystyried rhai dosbarthiadau. Rwy wedi ffeindio bod dilyn athrawon eraill ar Drydar yn fanteisiol, gan fod nifer fawr ohonynt yn rhannu adnoddau dysgu a dulliau rheolaeth dosbarth. Gobeithiaf barhau gyda darllen am eu syniadau a phrofiadau o ganlyniad”.</i>
Arweinyddiaeth	<i>“Wrth ystyried dosbarthiadau a disgyblion mwy heriol, mae angen i mi dreialu amrywiaeth o strategaethau ac hefyd datblygu technegau newydd o addysgu. Byddai'n syniad da i mi dreialu technegau newydd e.e. dros gyfnod i fis, er mwyn gallu darganfod os yw'n cynorthwyo'r sefyllfa neu beidio. Gallai hyn hefyd fod yn fuddiol wrth ystyried disgyblion gallu isel a MATH, er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial”.</i>
Cydweithredu	<i>“Gan taw nid Hanes yw fy mhwnc arbenigol, byddaf yn parhau i ofyn am gymorth wrth gynllunio gwer si oherwydd trwy wneud hyn byddaf yn sicrhau fy mod yn darparu'r gwybodaeth cywir, ac hefyd yn darparu gwersi o safon uchel. Mi fydd hyn yn sicrhau gwelliant yng ngwaith y dysgwyr o ganlyniad i hyn”.</i>



Regional School Improvement Consortia

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Cwestiynau Cyffredin

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/sefydlu/cwestiynau-cyffredin.html>



Cwestiynau Cyffredin – ANG

Cwestiynau Cyffredin	Ateb
Sut mae cofnodi fy nghofnod presenoldeb?	<i>Pan fyddwch yn derbyn cytundeb i weithio mewn ysgol, mae'r ysgol yn llenwi ffurflen hysbysu ar gyfer CGA. Bydd CGA yn recordio'r sesiynau ar y PDP ar ddiwedd pob tymor</i>
Pryd y byddaf yn cwrdd â fy GA?	<i>Bydd GA yn cael ei ddyrannu i chi a fydd yn cysylltu â chi ar ôl tua 6 wythnos o waith</i>
Rwy'n cael problemau gyda fy PDP	<i>Mae angen cyfeirio unrhyw faterion technegol at CGA</i>
Pa gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd yna?	<i>Mae gan eich consortiwm / ALL gyfleoedd DP penodol ar gyfer pob ANG. Bydd eich MS / consortia lleol yn darparu gwybodaeth</i>
Faint o Brofiadau Dysgu Proffesiynol sy'n rhaid i mi wneud?	<i>Dylai rhwng 12 a 20 Profiad Dysgu Proffesiynol fod yn ddigon i ddangos cynnydd yn erbyn pob disgrifydd</i>
Faint o asedau cysylltiedig sydd eu hangen arnaf?	<i>Trafodwch â'ch MS / GA - y peth pwysicaf yw eu bod yn ystyrlon a darparu tystiolaeth glir o gynnydd yn erbyn disgrifydd</i>
Sut ydw i'n gwybod pryd i gyflwyno fy mhroffil i'w asesu?	<i>Bydd yr MS ac GA yn gwneud yr argymhelliad pan fyddwch wedi dangos cyrhaeddiad yn erbyn yr holl ddisgrifwyr o fewn y safonau.</i>

Cwestiynau Cyffredin – ANG (gwybodaeth ychwanegol pan yn cyflenwi tymor byr)

Cwestiynau Cyffredin	Ateb
Sut mae cofnodi fy nghofnod presenoldeb?	<i>Gofynnwch am allbrint gan eich asiantaeth ar ôl pob 15 diwrnod o waith. Llwythwch hwn i CGA</i>
Pryd y byddaf yn cwrdd â fy GA?	<i>Rhoddir GA i chi pan fyddwch wedi lan-lwytho 60 sesiwn</i>
Nid oes gennyf MS - pwy fydd yn gosod fy nhargedau?	<i>Bydd eich targedau yn ymwneud â'ch hunanasesiad yn eich PDG. Bydd eich GA yn cwrdd â chi i drefnu hyn</i>
Beth fydd yn digwydd os na chaf unrhyw waith?	<i>Nid oes cyfyngiad i'r amser y mae'n rhaid i chi gwblhau ymsefydlu ond cynhelir asesiad cyn / ar 380 sesiwn</i>
Nid wyf wedi clywed gan fy GA ac rwy'n ei chael hi'n anodd?	<i>Cysylltwch â'ch ALL/Consortia. Byddant yn cynnig cyngor i chi</i>
Pa ddysgu proffesiynol sy'n cael ei gynnig pan rydw i'n cyflenwi tymor byr	<i>Bydd eich ALL / consortia lleol yn gallu cynghori.</i>
A allaf gymryd gwaith fel CCD, CALU neu diwtor?	<i>Gallwch, ond ni ellir defnyddio'r sesiynau hyn fel rhan o'ch cyfnod sefydlu.</i>

Cwestiynau Cyffredin – Mentor Sefydlu

Cwestiynau Cyffredin	Ateb
Pryd ydyn ni'n anfon y ffurflen hysbysu at CGA?	<i>Cyn gynted ag y bydd y contract yn cychwyn neu pan fydd ANG gyda chi yn y tymor hir. Bydd CGA yn e-bostio'ch manylion mewngofnodi atoch ar gyfer yr ANG a gefnogwch.</i>
Pryd mae'r ysgol yn derbyn cyllid?	<i>Ffurflenni cyllid a anfonir at CGA ar ddiwedd pob tymor neu pan ddaw'r contract i ben</i>
Pa mor aml ydw i'n cwrdd â fy ANG?	<i>Mae angen sicrhau bod amser ar gael i drafod / cymeradwyo Profiadau Dysgu Proffesiynol</i>
Sut mae archebu'r ANG ar raglenni PL?	<i>Rhoddir gwybodaeth gan eich ALL / consortiwm</i>
Pa mor aml ydw i'n arsylwi ar yr ANG?	<i>O leiaf unwaith. Yn ddelfrydol unwaith y tymor - ond gall ymweliadau 'galw heibio' fod yr un mor ddefnyddiol wrth fonitro cynnydd yr ANG</i>
Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i bryder?	<i>Cyfeiriwch ar y siart llif 'achos pryder'</i>
Sut alla i gysylltu â'r GA?	<i>Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar y PDP ANGau</i>

Cwestiynau Cyffredin -GA

Cwestiynau Cyffredin	Ateb
Ble mae dod o hyd i'r wybodaeth a'r manylion cyswllt ar gyfer fy ANGau a MSau?	<i>Gellir dod o hyd i'r rhain ar eich cofrestr pan fyddwch yn mewngofnodi fel GA. Cofiwch edrych ar y 'gweld / diweddarau ymsefydlu ANG' a 'gweld / diweddarau ANG Cyflenwi Tymor Byr sy'n ymgymryd â sefydlu'</i>
Pryd ydw i'n cysylltu â fy ANG?	<i>Dylid cysylltu cyn gynted â phosibl ar ôl dyrannu. Os mewn ysgol, cysylltwch â'r MS. Os yn cyflenwi tymor byr cysylltwch â'r ANG yn uniongyrchol.</i>
Rwy'n cael anhawster cysylltu â ANG	<i>Gall yr ALI/CP gysylltut â nhw ar eich rhan</i>
Pam mae fy ANG yn dal i ddangos fel 0 sesiwn?	<i>Mae sesiynau ANG ar gontract yn cael eu hychwanegu at y proffil bob tymor pan fydd yr ysgol wedi anfon ffurflen ariannu at y CGA. Mae angen uwchlwytho ANG ar CTB ar ôl pob 15 sesiwn a addysgir.</i>
Pryd ydw i'n arsylwi ar ANG?	<i>Dylai'r arsylwi cyntaf ddigwydd yn y Tymor cyntaf, gall hyn fod yn arsylwi ar y cyd â'r MS.</i>
Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i bryder?	<i>Cyfeiriwch ar y broses 'Achos Pryder'. Gall yr ALI LA/CP can offer further advice</i>

Lleoliadau sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Medi – Rhagfyr 2021

Canllawiau ar leoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yn nhymor yr hydref 2021:

[Lleoliadau sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso: canllawiau - Hwb \(gov.wales\)](#)



Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Achos Pryder



Achos pryder

Mae achos pryder ynghylch cynnydd ANG mewn perthynas â'r Safonau Dysgu Proffesiynol ar Lefel Sefydlu. Mae hyn yn cynnwys peidio ymgysylltu â'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.

Dialog proffesiynol rhwng yr ANG, y Mentor Sefydlu, Gwiriwr Allanol a'r Pennaeth i drefnu cynllun gweithredu ysgrifenedig yn yr ysgol sy'n cynnwys cefnogaeth ychwanegol. Cedwir cofnod gan yr ysgol.

Adolygiad o'r cynllun gweithredu rhwng ANG, Mentor Sefydlu, Gwiriwr Allanol a'r Pennaeth. Ydy pawb yn gytûn bod cynnydd digonol wedi'i wneud?

Na

Corff Priodol (AB) wedi'i hysbysu.

Oes

Parhau i fonitro cynnydd gan y MS a'r GA.

Y botwm achos pryder wedi'i wasgu ar y PDP gan y GA. Cytunwyd ar y cynllun gweithredu a chwblhawyd gan yr ANG, MS, GA a'r Pennaeth a'i lan-lwytho ar y PDP gan y GA. Yr ysgol / ALI/ Consortia yn darparu cefnogaeth ychwanegol i'r ANG i gynorthwyo i gyrraedd targedau penodol. CP yn e-bostio llythyr ffurfiol ar yr ANG fel atodiad (GA a'r Pennaeth yn cael eu copïo i mewn). Mae'r llythyr yn amlinellu'r gofynion ar gyfer asesu a chanlyniadau methu â gwneud y gwelliant angenrheidiol.

Adolygiad o'r cynllun gweithredu rhwng ANG, MS, GA, Pennaeth a'r CP. Yr adolygiad yn cael ei lan-lwytho i'r PDP gan y GA. A yw pawb yn cytuno bod cynnydd digonol wedi'i wneud?

Na

CP yn ysgrifennu at yr ANG yn eu hysbysu nhw eu bod wedi methu'r sefydlu a bod ganddynt yr hawl i apelio.

Oes

Parhau monitro cynnydd gan yr MS a'r GA.



Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Dysgu Proffesiynol



Teams:

- Teams mentor sefydlu: [Tîm Dysgu Proffesiynol Sefydlu Cenedlaethol ar gyfer MS](#)
- Teams Gwiriwr allanol: [Tîm Dysgu Proffesiynol Gwirwyr Allanol \(GA\)](#)
- Disgwylir i bob ysgol ryddhau'r ANG I fynychu 8 diwrnod o ddysgu proffesiynol yn ystod y cyfnod sefydlu. Bydd hyn yn cynnwys y rhaglen graidd genedlaethol 3 diwrnod a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer yr ANG, y gellir cael mynediad drwy Teams: [Tîm Dysgu Proffesiynol cefnogi yr ANG](#)

Hyfforddiant ANG 2021 - 2022

Rhaglen Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol i gefnogi ANG's



Mae na 6 sesiwn i'r ANG's wedi eu trefnu'n genedlaethol. Gofynnwn i bob ANG wneud ymdrech i fynychu bob un Bydd dolenni sesiynau 3 – 6 ar gael drwy gofrestru ar G6. Mi fydd manylion pellach ar gael ym bwletin GwE, wefan GwE ac ar G6.

Sesiwn 2 Cychwyn fel ANG (Y broses)	Sesiwn 3 a 4 Lles ag Ymddygiad i Ddysgu	Sesiwn 5 a 6 Hyrwyddo Pedagogiaeth ag Asesu Ffurfiannol
18/10/21 – Starting as an NQT (S2) 9.00 – 12.00 (English)	08/11/21 – Lles 9.00 – 12.00 (Cymraeg)	07/12/21 – Curriculum Wales 1.00 – 4.00 (English)
19/10/21 – Starting as an NQT (S2) 1.00 – 4.00 (English)	11/11/21 - Well-Being 1.00 – 4.00 (English)	10/12/21 – Cwricwlwm Cymru 9.00 – 12.00 (Cymraeg)
20/10/21 – Cychwyn fel ANG (S2) 1.00 – 4.00 (Cymraeg)	24/11/21 – Ymddygiad ar gyfer Dysgu 9.00 – 12.00 (Cymraeg)	12/01/22 – Asesu Ffurfiannol 9.00 – 12.00 (Cymraeg)
21/10/21 – Cychwyn fel ANG (S2) 9.00 – 12.00 (Cymraeg)	25/11/21 – Behaviour for Learning 9.00 – 12.00 (English)	14/01/22 – Formative Assessment 9.00 – 12.00 (English)

Hyfforddiant MS 2021 - 2022

Rhaglen Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol i gefnogi Mentoriaid Sefydlu ANG's



Gofynnwn i bob MS fynychu'r hyfforddiant canlynol i'ch cefnogi yn eich rôl o ddatblygu'r ANG yn eich ysgol. Bydd dolenni i'r sesiynau ar gael drwy'r [Team Dysgu proffesiynol Cenedlaethol MS ar gyfer sefydlu](#) (Cliciwch y ddolen hon i gael mynediad i'r Team). Nid oes angen archebu lle, dim ond ymuno â'r cyfarfod ar yr adeg a'r dyddiad priodol.

Sesiwn 1 Y Cyfnod Pontio o SAC i ANG	Sesiwn 2 Ymarfer Myfyriol a Sgyrsiau Proffesinol	Sesiwn 3 Asesu ANG a Disgwyliadau Cymedroli
2/11/21 9-11.30 yb (Saes)	18/1/22 1-3.30 yp (Saes)	4/4/22 9-11.30 yb (Saes)
3/11/21 9-11.30 yb (Cym)	19/1/22 9-11.30 yb (Cym)	5/4/22 9-11.30 yb (Cym)
4/11/21 1-3.30 yp (Saes)	20/1/22 9-11.30 yb (Saes)	6/4/22 1-3.30 yp (Saes)
5/11/21 1-3.30 yp (Saes)	21/1/22 1 – 3.30 yp (Saes)	7/4/22 1-3.30 yp (Saes)



Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Gogledd Cymru

Manylion Cyswllt



Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am raglenni Sefydlu a Dysgu Proffesiynol, cysylltwch a

GwE – Gogledd Cymru

Ieuan Jones : ieuanjones@gwegogledd.cymru

Dyma manylion eich cysylltiadau yn yr awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru hefyd

Conwy: Eifion Roberts - (CP / AB) eifion.roberts@enfys.net

Dinbych: Eifion Roberts - (CP / AB) enfys.training@outlook.com

Fflint: Helen Crich a Jane Borthwick - (CP / AB) HelenMCrich@outlook.com / Jane.e.Borthwick@flintshire.gov.uk

Gwynedd: Diane Jones a Ffion Griffith - (CP/AB) dianejones3@gwynedd.llyw.cymru / ffionmairgriffith@gwynedd.llyw.cymru

Wrecsam: Siwan Meirion a Sian Harrison - (CP/AB) Siwan.Meirion@wrexham.gov.uk / Sian.Harrison@wrexham.gov.uk

Ynys Mon: Owen T Davies - (CP / AB) OwenDavies@ynysmon.gov.uk)

CP= Corff priodol AB= Appropriate Body